



## BYRDDAU DIOGELU GOGLEDD CYMRU

### Wythnos Ddiogelu 2022 – Amserlen

#DiogeluCymru #SafeguardingWales

Dyddiad	Asiantaeth	Teitl y Digwyddiad	Lleoliad	Disgrifiad
Dydd Iau 10 Tachwedd 2022	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Sesiwn <b>Mind of My own</b> (Llais y plentyn)	Wrecsam	Sesiwn Hyfforddiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Dydd Iau 10 Tachwedd 2022	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	<b>Cynhadledd Ddiogelu ½ diwrnod</b>	Wrecsam	Cynhadledd a drefnwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
Dydd Gwener 11 Tachwedd 2022	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Hyfforddiant <b>Gofyn a Gweithredu</b> (Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol)	Wrecsam	Sesiwn Hyfforddiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
Dydd Llun 14 Tachwedd 2022	Gofal Cymdeithasol Cymru	Lansio Fframwaith Safonau Cenedlaethol <b>Gofal Cymdeithasol Cymru</b>	Ar-lein	<a href="#">Cofrestrwch nawr i fod yn rhan o lansiad safonau dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol cyntaf erioed Cymru.</a>
	Cyngor Conwy	<b>Cynhadledd Flynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:</b> Cam-fanteisio a Cham-drin Domestig Pobl Hŷn	Ar-lein 09:30 – 11:30	Cynhadledd Flynyddol Cyngor Conwy.
	BDGC	<b>Sesiwn Hyfforddiant Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn</b> Hyfforddwr: Vicky Allen	Clwb Rygbi'r Rhyl 10:00 – 15:00	I amlygu sut mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn ategu'r symudiad oddi wrth ymyriadau diogelu sy'n canolbwyntio ar dargedau ac wedi'u harwain gan broses tuag at ddull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn a chyrraedd y canlyniadau y mae'r

			Hyfforddiant Wyneb yn Wyneb	oedolyn yn dyheu amdanynt (canlyniadau a wiriwyd ac a allai newid yn ystod yr ymyrraeth).
	Cyngor IOA	<b>Hyfforddiant Gofyn a Gweithredu</b> Hyfforddwr: Nia Hardaker	Ynys Môn 09:30 – 12:00	Mae hwn yn gwrs hyfforddiant gorfodol i'r holl Staff Gofal Uniongyrchol, yn unol â'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol Gofyn a Gweithredu.
	Cyngor IOA	Ymwybyddiaeth o Stelcio Cyflwynydd: Clair Humphreys	12:00 – 13:00	Sesiwn Ymwybyddiaeth i holl Staff y Cyngor
	BDGC	<b>Trosolwg o'r Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan</b> sy'n cyd-fynd â'r Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer Plant	Ar-lein 13:00 – 16:00	Pwyslais y digwyddiad fydd rhoi trosolwg i ymarferwyr addysg o'r cyfrifoldebau allweddol ar gyfer swyddogion addysg o fewn y Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan sy'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diogelu Plant rhag Camfanteisio Troseddol ar Blant</li> <li>• Diogelu Plant rhag cael eu Radicaleiddio Cynulleidfa darged - Ymarferwyr Addysg</li> </ul>
	BDGC	<b>A Allai Chwilfrydedd Achub Bywydau?</b> Cyflwynydd: Ann Anka (UEA), Helen Thacker (Arweinydd Norfolk Safeguarding Adults)	Ar-lein 14:00 – 15:30	Mae gwersi a ddysgwyd o Adolygiadau Ymarfer Oedolion / Adolygiadau Achosion Difrifol yn dangos y gall diffyg chwilfrydedd proffesiynol a chefnogaeth wedi'i gydlynu'n wael arwain at asesiadau a mesurau ymyrryd gwael sy'n methu â chefnogi'r rhai sydd mewn perygl o niwed a chamdriniaeth. Bydd y sesiwn hon yn edrych ar bwysigrwydd chwilfrydedd a gwaith partneriaeth wrth ddiogelu oedolion rhag niwed a chamdriniaeth ddifrifol.
	Cyngor Wrecsam	<b>Sesiwn Diogelu Oedolion</b>	Hwb Lles Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Bore goffi gyda gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr cefnogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gael i roi taflenni ac ateb cwestiynau mewn perthynas â Diogelu Oedolion.
Dydd Mawrth 15 Tachwedd 2022	BDGC	<b>Cynhadledd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru - Dathlu Arfer Da</b>	Ar-lein trwy gyfrwng Zoom 09:30-12:30	Cynhadledd i ddathlu arfer da. Bydd pob asiantaeth yn cyflwyno esiamplau achos sy'n arddangos arfer da.

	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	<b>Cynhadledd Diogelu Plant:</b> Adnabod Niwed a Chamdriniaeth Gorfforol mewn Plant.	Ar-lein 09:30 – 12:30	Mae'r gynhadledd hon ar agor i holl staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n gweithio gyda phlant. Dr Shiromi Ellis, Paediatregydd Cymunedol Ymgynghorol a Meddyg Penodol Cynorthwyol ar gyfer Diogelu Plant a Phobl Ifanc.
	Cyngor IOC	<b>Cynnal cyfarfodydd strategaeth effeithiol</b> - Hyfforddiant	10:00 – 11:00	Sesiwn i Arweinwyr Ymarfer a Gweithwyr Cymdeithasol Gwasanaethau Plant.
	BDGC	<b>Hawliau Dynol a Diogelu Oedolion</b> Cyflwynydd: (Dr Laura Pritchard-Jones)	Ar-lein 13:30 – 15:30	Bydd y sesiwn hon yn ystyried y gyfraith o ran hawliau dynol mewn mwy o fanylder, yn cynnwys chwala mythau am y Ddeddf Hawliau Dynol ei hun! Bydd hefyd yn edrych ar sut mae'r gyfraith yn berthnasol mewn sefyllfaoedd lle mae pryderon am gam-drin ac esgeuluso oedolion, a beth all dull wedi'i seilio ar hawliau i ddiogelu oedolion edrych fel.
	Cyngor IOC	<b>Sesiwn Ryngweithiol gyda Defnyddiwr Gwasanaeth</b> (Celcio)	13:30 – 14:30 ar MS Teams	Sesiwn ryngweithiol i weithwyr cymdeithasol plant a theuluoedd i glywed gan ddefnyddiwr gwasanaeth am ei phrofiad o'r gwasanaethau. Cyfle i weithwyr cymdeithasol ofyn cwestiynau i'r defnyddiwr gwasanaeth i gefnogi eu harfer a datblygiad proffesiynol.
	Cyngor Wrecsam	<b>Sesiwn Hawliau Dynol a Diogelu Oedolion</b>	Hwb Lles Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Bore goffi gyda gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr cefnogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gael i roi taflenni ac ateb cwestiynau mewn perthynas â'r Sesiwn Hawliau Dynol a Diogelu Oedolion.
	Cyngor IOA	Sesiynau Ymwybyddiaeth o Sgamiau	I'w gadarnhau	Wedi'i ddarparu gan y Safonau Masnach mewn Canolbwyntiau Cymunedol?
Dydd Mercher 16 Tachwedd 2022	BDGC	<b>Dysgu o Adolygiadau Ymarfer Oedolion</b> Cyflwynwyr: Dr Tom Slater/ Dr Alyson Rees	Ar-lein 09.30am - 10.30	Bu i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ar gyfer Cymru gomisiynu'r dadansoddiad thematig hwn o Adolygiadau Ymarfer Oedolion yng Nghymru. Bydd Dr Slater a Dr Rees yn rhoi trosolwg o'r darganfyddiadau allweddol.

	BDGC	<b>Trosolwg o'r Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan</b> sy'n cyd-fynd â'r Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer Plant	Ar-lein 09:30 – 12:30	Pwyslais y digwyddiad fydd rhoi trosolwg i ymarferwyr addysg o'r cyfrifoldebau allweddol ar gyfer swyddogion addysg o fewn y Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan sy'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diogelu Plant rhag Camfanteisio Troseddol ar Blant</li> <li>• Diogelu Plant rhag cael eu Radicaleiddio</li> </ul> Cynulleidfa darged - Ymarferwyr Addysg.
	BDGC	<b>Hyfforddiant Prevent</b>	Ar-lein 10:00 - 15:30pm	Hyfforddiant Prevent - Deall Channel <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diffiniadau</li> <li>• Arwyddion o ddiogelwch</li> <li>• Llwybrau Atgyfeirio</li> <li>• A36, VAFs, Casglu Gwybodaeth</li> </ul>
	BDGC	<b>Sesiwn Cwrdd â'r Bwrdd ar gyfer Prifysgolion ac Addysg Bellach</b>	Ar-lein 11:00 – 12:00	Sesiwn i roi cyfle i drafod gwaith a blaenoriaethau'r Bwrdd, a Gweithdrefnau Diogelu Cymru gydag Arweinydd Diogelu o Brifysgolion a Cholegau Addysg Bellach.
	BDGC	<b>Trosolwg o waith Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru</b> Cyflwynydd: Andrea Cooper	Ar-lein 12:30 – 13:30	Trosolwg o waith y Comisiynydd Pobl Hŷn a gyflwynir gan Andrea Cooper - Arweinydd Diogelu - Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn
	Cyngor Wreccsam	<b>Sesiwn Ymwybyddiaeth Channel</b>	Hwb Lles Wreccsam	Bore goffi gyda gweithwyr a gweithwyr cefnogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam ar gael i roi taflenni ac ateb cwestiynau mewn perthynas â'r Sesiwn Ymwybyddiaeth Channel.
	BIPBC	<b>Cynhadledd Llysgenhadon Diogelu</b>	Ar-lein 14:00 – 16:00.	Thema Allweddol - Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'r gynhadledd hon ar agor i holl Llysgenhadon Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
	Heddlu Gogledd Cymru	<b>Oedolion mewn Perygl - Cam-drin Corfforol</b>		Bydd Heddlu Gogledd Cymru yn canolbwyntio ar Oedolion mewn Perygl

				Bydd yr ymgyrch allanol yn defnyddio Llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol Heddlu Gogledd Cymru yn ymdrin ag Arwyddion, Symptomau, Adrodd a Chyfeirio Priodol.
Dydd Iau 17 Tachwedd 2022	BDGC	<b>Dysgu o Adolygiadau Ymarfer Plant/ Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol</b> Cyflwynydd: Val Owen	Ar-lein 09:30 – 11:30	Bydd y gweithdy dysgu hwn yn canolbwyntio ar ddysgu o'r Adolygiadau Ymarfer Plant mwyaf diweddar a'r Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol sydd wedi'u cynnal yn ystod y tair blynedd diwethaf.
		<b>Paratoi at y Trefniadau Diogelu Rhyddid</b> Cyflwynydd: Neil Allen (Essex Chambers)	Ar-lein 10:00 – 12:00	Bu i Lywodraeth y DU basio'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygiad) 2019, sy'n ymestyn i Gymru a Lloegr, i ddisodli'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid â'r Trefniadau Diogelu Rhyddid. Bydd rhai pethau'n aros yr un fath, rhai elfennau'n cael eu hatgyfnerthu, a bydd rhai yn newid. Bydd Neil Allen yn rhoi trosolwg o'r newidiadau a'r heriau a ddaw yn sgil hyn.
	Cyngor Wrecsam	<b>Sesiwn ar y Trefniadau Diogelu Rhyddid</b>	Hwb Lles	Bore goffi gyda gweithwyr a gweithwyr cefnogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gael i roi taflenni ac ateb cwestiynau mewn perthynas â'r Trefniadau Diogelu Rhyddid.
	Cyngor IOA	<b>BAWSO – Caethwasiaeth Fodern</b>	Ar-lein 09:30 – 12:00	Gwybodaeth am BAWSO - Black Association of Women Step Out Diffinio Caethwasiaeth Fodern a Masnachu mewn Pobl Mathau o Gaethwasiaeth Fodern Ffactorau Bregusrwydd Rhwystrau i Ddatgelu Y Mekanwaith Cyfeirio Cenedlaethol Llwybr Gofal Dioddefwyr Cwestiynau ac Atebion
	Cyngor Wrecsam	<b>Gweithdy Cronolegau</b>	Ar-lein, amser i'w gadarnhau	Gweithdy Dysgu Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

	Cyngor Wrecsam	<b>Arfer Da - Gweithdy Oedolion mewn Perygl</b>	Ar-lein	Gweithdy Dysgu Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
	BDOGC	<b>Digwyddiad Dysgu a Myfyrio Ymgyrch Jasmine:</b> Cyflwynir y sesiwn gan: Margaret Rooney – Dirprwy Brif Arolygydd - AGC	Ar-lein 14:00 – 15:30	Digwyddiad Dysgu a Myfyrio Ymgyrch Jasmine: <b><u>Bydd y sesiwn yn archwilio:</u></b> ➤ Y gwersi a ddysgwyd. ➤ Beth sydd wedi newid ers hynny? ➤ Sut gallai'r gwersi a ddysgwyd fod yn berthnasol yng nghyd-destun yr hinsawdd bresennol ym maes gofal cymdeithasol.
	Cyngor IOA	<b>Barnardo's - Ceisiwr Lloches</b>	Ar-lein, amser i'w gadarnhau	Sesiwn codi ymwybyddiaeth i staff
	Heddlu Gogledd Cymru	<b>Diogelu Oedolion – Cam-drin Ariannol</b>		Bydd Heddlu Gogledd Cymru yn canolbwyntio ar Oedolion mewn Perygl Bydd yr ymgyrch allanol yn defnyddio Llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol Heddlu Gogledd Cymru yn ymdrin ag Arwyddion, Symptomau, Adrodd a Chyfeirio Priodol. Yn cynnwys mewnbwn a sesiwn cwestiwn ac ateb gan yr Ymchwilydd Ariannol, Rachel Roberts.
Dydd Gwener 18 Tachwedd 2022	BDOGC	<b>Chwilfrydedd Proffesiynol (Plant):</b> Cyflwynydd: Paul Jones	Ar-lein 09:30 – 11:30	Chwilfrydedd proffesiynol yw'r gallu a'r sgil cyfathrebu i archwilio a deall beth sy'n digwydd o fewn teulu yn hytrach na thybio neu dderbyn pethau'n arwynebol.  Bydd y gweithdy yn cyfeirio at ddysgu o adolygiadau ymarfer a hefyd yn mynd drwy Ganllawiau Chwilfrydedd Proffesiynol Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru.
	BDOGC	<b>Ymgysylltu â Thadau mewn Amddiffyn Plant:</b> Cyflwynydd: Paul Jones	Ar-lein 13:00 – 15:30	Mae tystiolaeth o'r methiant i ymgysylltu â thadau a ffigurau tadol mewn ymchwil ac adolygiadau achos ers degawdau.

				Mae BDGC yn cynnal gweithdy i ymarferwyr i gael gwell gwybodaeth o ddysgu o adolygiadau ymarfer yn ymwneud ag ymgysylltu â thadau. Bydd y rhai sy'n bresennol hefyd yn dysgu awgrymiadau arfer da pan fyddant yn gweithio gyda thadau/ ffigurau tadol.
	Cyngor Wrecsam	<b>Sesiwn Gweithio gyda Thadau</b>	Hwb Lles	Bore goffi gyda gweithwyr a gweithwyr cefnogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gael i roi taflenni ac ateb cwestiynau mewn perthynas â Gweithio gyda Thadau.
	Cyngor Conwy	<b>Sesiwn Ail-weithredu a Radicaleiddio</b>	Sesiwn Wyneb yn Wyneb 11:00 – 12:00	Conwy yn cyflwyno 'digwyddiad byw', i weithwyr ei fynychu.
	Cyngor IOA	Sesiynau Ymwybyddiaeth o Sgamiau	I'w gadarnhau	Wedi'i ddarparu gan y Safonau Masnach mewn Canolbwyntiau Cymunedol?
<b>DRWY'R WYTHNOS</b>	BDGC	Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru	Gwefan y Bwrdd	Ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol, gwefan, Facebook a Twitter BDGC yn hyrwyddo negeseuon diogelu gwahanol.
	Cyngor Wrecsam	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Gwefan Gorfforaethol	Ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol ar draws tudalennau Facebook, Twitter ac Instagram y Cynghorau yn cysylltu un thema bob dydd gyda negeseuon amrywiol, dyfyniadau sy'n eich ysbrydoli a fideos ar-lein i godi ymwybyddiaeth am bwnc y dydd.
	Cyngor Sir y Fflint	Cyngor Sir y Fflint	Gwefan Gorfforaethol	Hyrwyddo'r Wythnos Ddiogelu a phostio negeseuon ar Twitter. Ail bostio'r fideo a gynhyrchwyd gan y bwrdd diogelu ar Twitter ac ar ein mewnwyd. Bob diwrnod yn ystod yr wythnos byddwn yn postio astudiaeth achos ar ein

				mewnrwyd i ddangos sut mae gwneud adroddiad yn gallu gwneud gwahaniaeth.
	Cyngor Gwynedd	Cyngor Gwynedd		Hyrwyddo'r Wythnos Ddiogelu a phostio negeseuon ar Twitter. Mae'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau yng Ngwynedd yn cael eu cynnal yr wythnos cynt er mwyn galluogi ymarferwyr i fynychu digwyddiadau BDGC.
	BIPBC	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Diogelu Corfforaethol	Cystadleuaeth creu poster diogelu Dylunio poster sy'n ystyried y canlynol: Ystyriwch rhai o'r pynciau hyn: Oedolyn mewn Perygl, Plentyn mewn Perygl, Caethwasiaeth Fodern, Cam-drin Domestig. Sut i wneud Adroddiad Oedolyn mewn Perygl (Atgyfeiriad Diogelu), beth i'w wneud pan mae gennych chi bryder ynghylch diogelu.
	Cyngor Conwy	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Drwy Postmaster	Rhannu 4 briff 7 munud bob dydd yn ystod yr Wythnos Ddiogelu.